Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

**Grant Cymunedol Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU**

**Dyfarniad Canolig**

**Canllaw i Ymgeiswyr**

## Diogelu Data

Dim ond at ddibenion prosesu eich cais am Grant Cymunedol Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU y bydd yr wybodaeth rydych chi'n ei nodi ar y ffurflen yma'n cael ei defnyddio. I ddysgu rhagor am sut y bydd Carfan Datblygu'r Gymuned RhCT Gyda'n Gilydd yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, ewch i:

Diogelu Data | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)

http://www.rctcbc.gov.uk/HysbysiadPreifatrwyddGwasanaeth

Diben y canllawiau yma yw egluro a helpu ymgeiswyr i lenwi'r ffurflen gais.

| Adran yn y Ffurflen Gais | Canllawiau |
|---|---|
| Addasrwydd y prosiect | Rhaid cyflwyno prosiectau/gweithgareddau o fewn ffiniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.<br><br>Bydd angen i brosiectau fodloni amcanion blaenoriaeth buddsoddi Cymunedau a Lle Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.<br><br>Bydd y flaenoriaeth buddsoddi yn galluogi lleoedd i fuddsoddi i adfer eu mannau cymunedol a'u perthnasau a chreu'r sylfeini ar gyfer datblygiad economaidd ar lefel gymdogaeth. Bwriad hyn yw cryfhau gwead cymdeithasol yn y gymuned, gan annog ymdeimlad o falchder yn y gymuned.<br><br>Dyma'r amcanion –<br><br>• Cryfhau ein gwead cymdeithasol a mabwysiadu ymdeimlad o falchder lleol, a hynny drwy fuddsoddi mewn gweithgareddau sy'n gwella cysylltiadau corfforol, diwylliannol a chymdeithasol a mynediad at amwynderau, megis isadeiledd cymunedol a mannau gwyrdd lleol, a phrosiectau a gaiff eu harwain gan y gymuned.<br><br>• Adeiladu cymdogaethau cydnerth, iach a diogel drwy fuddsoddi mewn lleoedd o ansawdd yr hoffai pobl fyw, gweithio, chwarae a dysgu ynddyn nhw, drwy welliannau wedi'u targedu i'r amgylchedd adeiledig a |

| | |
|---|---|
| | naturiol a dulliau arloesol i atal troseddau.<br><br>Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, yma: https://www.gov.uk/government/publications/uk-shared-prosperity-fund-prospectus/uk-shared-prosperity-fund-prospectus<br><br>**Yn Rhondda Cynon Taf**<br>Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU ar gael i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i alluogi lleoedd i fuddsoddi mewn meithrin gallu a chymorth i adfer mannau cymunedol a pherthnasoedd a chreu'r sylfeini ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, datblygiad amgylcheddol, economaidd a diwylliannol ar lefel y gymdogaeth.<br><br>Mae Cyngor RhCT wedi cyflwyno Grant Cymunedol er mwyn cyflawni'r canlynol:<br><br>• Adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn, yn enwedig yn y lleoedd hynny lle maen nhw wedi mynd ar goll. |
| Pwy sy'n gymwys i wneud cais? | Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn sicrhau bod Grant Cymunedol ar gael i sefydliadau dielw personol, sefydliadau yn y Trydydd Sector a Grwpiau Cymunedol, gan gynnwys Cwmnïau Buddiannau Cymunedol a Chwmnïau Cyfyngedig drwy Warant sy'n gallu dangos bod gyda nhw Gyfansoddiad neu Ddogfen Lywodraethol; a Chyfrif Banc yn enw'r sefydliad gydag o leiaf 2 lofnod ar wahân (sydd ddim yn perthyn i'w gilydd). |
| Faint o arian rydw i'n cael gwneud cais ar ei gyfer?<br><br>Beth yw'r terfynau amser? | **<u>Dyfarniad Lefel Canolig - £10,001 - £45,000</u>**<br><br>Gall prosiectau fod yn gyfalaf a/neu'n refeniw.<br><br>Bydd ceisiadau'r rownd Dyfarniad Canolig yn agor 25 Chwefror 2025 ac yn cau ar 14 Mawrth 2025 am 5pm.<br><br>Yr amserlen ar gyfer y gwariant/gweithgaredd cymwys yw 1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026.<br><br>Rhaid i brosiectau gwblhau pob pryniant ariannol a gweithgaredd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol berthnasol.<br><br>**<u>Gwariant posibl - Enghreifftiau yn unig:</u>** |

| | |
|---|---|
| Am beth gaf i wneud cais? | • Adnoddau ar gyfer prosiectau<br>• Offer – e.e., darnau bach o eitemau y mae modd eu cludo, megis tegell, wrn, peiriant gwnïo.<br><br>• Lluniaeth<br>• Llogi Cyfleusterau<br>• Costau Gweithgareddau Ymgysylltu yn y Gymuned - yn cynnwys staffio ar gyfer sesiynau allanol<br>• Arolygon Effeithlonrwydd ynni<br>• Ymatebion adfer effeithlonrwydd ynni lefel isel – e.e. – ailosod bylbiau golau, deunyddiau i roi tu ôl i reiddiaduron, atalwyr drafft.<br>• Cyflogau sefydliadol yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gweithgarwch/prosiect - bydd angen adroddiadau cyflogres ariannol llawn os caniateir cyllid ar gyfer costau cyflog.<br>• Gwariant cyfalaf – Eitemau mwy – Gweler Adran 5 am fanylion pellach mewn perthynas ag eitemau Cyfalaf.<br><br>Gall ceisiadau gynnwys hyd at 10% o gostau trefniadol megis rheoli prosiect/gweinyddu a chostau lleoliad megis cyfleustodau.<br><br>Bydd pob cais yn cael ei asesu gan banel ar ddiwedd y cyfnod ymgeisio, a hynny'n rhan o broses gystadleuol. Cyfeiriwch at y ddogfen Meini Prawf sydd wedi'i ddarparu. |
| Sut bydd fy nghais yn cael ei brosesu? | Byddwch chi'n derbyn cadarnhad ar ôl i chi gyflwyno eich cais.<br><br>Bydd pob cais yn cael ei asesu gan banel asesu ar ôl i'r cyfnod ymgeisio ddod i ben.<br><br>Byddwch chi'n cael gwybod am benderfyniad y panel asesu cyn pen 10 diwrnod gwaith. |
| Adran 1<br><br>Manylion cyswllt | Dyma enw'r person sy'n cwblhau'r cais ar ran y sefydliad. Dylai cyfeiriad a manylion cyswllt fod ar gyfer y sefydliad, nid data personol.<br><br>Dyma'r person y byddwn ni'n cysylltu ag ef yn ystod bob cam o'r broses ymgeisio. |
| Rhan 2<br><br>Manylion y sefydliad | Dyma enw a manylion cyswllt y sefydliad.<br><br>Dylech chi gadarnhau p'un a oes gyda chi'r yswiriant a'r polisïau perthnasol ar waith i gynnal eich prosiect. Efallai y byddwn ni'n gofyn i weld y rhain ar gais, felly sicrhewch fod modd i chi gael |

| | |
|---|---|
| | gafael ar y dogfennau yma'n hawdd. |
| Adran 3<br><br>Manylion Banc y Sefydliad | Dyma fanylion banc eich sefydliad.<br>Rhaid i chi sicrhau bod y manylion yma'n cyd-fynd â'r dystiolaeth rydych chi'n ei darparu yn eich cais, hynny yw, yr un rhif cyfrif a chod didoli. |
| Adran 4.a.<br><br>Enw'r Prosiect | Dyma enw'r prosiect rydych chi'n gwneud cais amdano.<br><br>Mae hwn fel arfer yn wahanol i enw'ch sefydliad. |
| Adran 4.b.<br><br>Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT | Dylech chi adolygu'r blaenoriaethau a rhoi tic wrth ymyl pob un sy'n berthnasol.<br><br>I weld copi o Gynllun Corfforaethol y Cyngor; Gweithio Gyda'n Cymunedau 2025-30, ewch i www.rctcbc.gov.uk neu glicio Cynllun Corfforaethol y Cyngor \| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Adran 5.<br>Trosolwg Ariannol | Nodwch gyfanswm y gost a chyfanswm y cais am grant rydych chi'n gwneud cais amdano.<br><br>Costau Refeniw a Chyfalaf ar wahân.<br><br>Mae angen dadansoddiad ariannol llawn o fewn eich Cynllun Prosiect. Templed Gweler Meini Prawf Asesu 10 o fewn **Canllawiau Templed Cynllun Prosiect** isod. |
| Adran 6.<br><br>Templed Cynllun Prosiect | Rhaid i chi lanlwytho / atodi eich Templed Cynllun Prosiect wedi'i gwblhau.<br><br>Gweler **Canllawiau Templed Cynllun Prosiect** – Atodiad A |
| Sut bydd eich grant yn cael ei dalu | Os caiff eich cais ei gymeradwyo, byddwch chi'n derbyn e-bost gyda'ch cynnig grant.<br><br>Bydd angen i chi dderbyn y cynnig grant mewn egwyddor drwy ymateb i'r e-bost.<br><br>Ar ôl derbyn yr e-bost, bydd gofyn i chi lofnodi Cytundeb Grant gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.<br><br>Bydd amserlen dalu bwrpasol yn cael ei dangos ar eich llythyr cynnig a fydd yn cynnwys taliad rhannol (pro rata) am hyd eich prosiect a fydd yn cael ei dalu i'ch sefydliad mewn ôl-daliadau.<br><br>Bydd taliad yn cael ei wneud i'r cyfrif banc sydd wedi'i nodi ar y ffurflen gais ar ôl derbyn anfoneb am y swm y cytunwyd arno yn eich amserlen dalu. |

| | |
|---|---|
| | Bydd angen i chi ddarparu adroddiad cynnydd/uchafbwyntiau yn chwarterol a darparu astudiaeth achos ar bob un o'r templedi ar-lein sydd wedi'u darparu. Ar ddiwedd y prosiect, bydd angen adroddiad uchafbwyntiau arnom ni ar gyfer y prosiect cyfan.<br><br>Byddwch yn effro i'r ffaith efallai y bydd raid i'r Cyngor ail-hawlio'r grant pe ne bai'r sefydliad neu'r gweithgarwch arfaethedig yn cydymffurfio â'r Cytundeb Grant a/neu'n methu â darparu tystiolaeth o'r deilliannau y cytunwyd arnyn nhw ac sy'n ofynnol. |
| Adran 7<br><br>Rheoli Cymhorthdal y Wladwriaeth | Bydd angen i chi gadarnhau p'un a ydych chi'n bodloni'r diffiniad o fenter ai peidio. Os 'ydw' yw'r ateb i a) neu b), rydych chi'n bodloni'r diffiniad o fenter. Darllenwch, llenwi ac arwyddo'r datganiad yn yr adran Rheoli Cymhorthdal – Cymorth Ariannol Lleiaf yn y ffurflen gais. Os eich ateb yw c), sef dim un o'r uchod, dydych chi ddim yn bodloni'r diffiniad o Fenter - ewch i Adran 7. |
| Adran 8<br><br>Awdurdodiad | Rhaid i'r person sy'n cwblhau eich cais ac un person awdurdodedig arall o'ch sefydliad lofnodi a dyddio'r cais cyn iddo gael ei gyflwyno. |
| Adran 9<br><br>Rhestr wirio | Mae'r adran yma i chi sicrhau eich bod chi wedi cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol cyn i chi gyflwyno eich cais.<br><br>Mae hwn yn broses gystadleuol. Cadwch at y nifer geiriau ym mhob adran. Darparwch yr holl wybodaeth.<br><br>Gall gwybodaeth sydd ar goll, gwybodaeth anghywir neu ysgrifennu mwy na'r cyfrif geiriau arwain at eich cais yn cael ei wrthod. |
| **Atodiad A** | |
| **CANLLAWIAU TEMPLED CYNLLUN PROSIECT** | |
| Ble i gael mynediad at Dempled Cynllun Prosiect | Mae Templed Cynllun Prosiect ar gael i'w lawrlwytho mewn fformat Word trwy wefan RhCT Gyda'n Gilydd.<br><br>Cwblhewch bob adran o'r Templed Cynllun Prosiect<br><br>Cadwch at y terfynau geiriau ar Dempled y Prosiect. Os ydych chi'n ysgrifennu mwy na'r cyfrif geiriau, fydd unrhyw wybodaeth |

| | |
|---|---|
| | ychwanegol ddim yn cael ei hystyried.<br><br>Cyfeiriwch hefyd at y ddogfen Meini Prawf.<br><br>Mae modd lanlwytho / atodi eich Templed Cynllun Prosiect gorffenedig mewn fformat Word neu PDF. |
| Enw'r sefydliad a'r prosiect | Rhowch enw'r sefydliad<br><br>Rhowch enw eich prosiect |
| **Meini Prawf Asesu 1** **Tystiolaeth o Angen y Gymuned** | Disgrifiwch sut rydych chi'n effro i'r ffaith bod angen eich prosiect ar eich cymuned.<br><br>Dywedwch a yw hon yn fenter newydd neu'n cynnal gweithgaredd sy'n bodoli eisoes.<br><br>Dylech chi ddangos sut rydych chi'n gwybod bod galw am y prosiect yma. Er enghraifft, a gafodd y galw ei nodi mewn cyfarfod Rhwydwaith Cymdogaeth, mewn arolwg diweddar neu mewn ymgynghoriad effeithlonrwydd?<br><br>Sylwch fod angen yn y gymuned yn wahanol i angen eich sefydliad a rhaid i geisiadau fodloni angen y gymuned.<br><br>Os ydych chi'n gwneud cais am arian Cyfalaf, a ydych chi wedi cael archwiliad effeithlonrwydd ynni, er enghraifft? Os ydych chi, darparwch y rhain gyda'ch cais. |
| **Meini Prawf Asesu 2** **Gweithgareddau ac Amserlenni** | Nodwch fanylion gweithgareddau fydd yn digwydd a'r dyddiadau rydych chi'n bwriadu eu darparu.<br><br>Yr amserlen ar gyfer y gwariant/gweithgaredd cymwys yw 1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026.<br><br>Rhaid i chi gadarnhau'r cyfeiriad(au) dosbarthu ar gyfer eich prosiect. |
| **Meini Prawf Asesu 3** **Gweithio Mewn Partneriaeth** | Darparwch fanylion y cydweithio sydd wedi digwydd hyd yn hyn a/neu gydweithio a fydd yn digwydd mewn perthynas â'ch prosiect.<br><br>Ydych chi'n gweithio ar y cyd â rhywun? Os ydych chi, dylech chi enwi'r holl bartneriaid a chadarnhau mai chi yw'r prif sefydliad sy'n gweithredu ar ran y bartneriaeth honno. |
| **Meini Prawf** | Dylech chi ddewis yr allbynnau a'r deilliannau perthnasol i'ch |

| | |
|---|---|
| **Asesu 4**<br>**Amcanion Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU** | prosiect, rhoi rhagamcaniadau a nodi sut rydych chi'n bwriadu cadw a darparu'r dystiolaeth berthnasol.<br><br>Does **dim rhaid** i chi ddewis yr holl allbynnau a deilliannau.<br><br>**Rhaid** i chi ddewis o leiaf un allbwn/deilliant fesul ffrwd ariannu, e.e. os ydych chi'n gwneud cais am Gyfalaf a Refeniw, dewiswch un ar gyfer pob un. Os mai Cyfalaf yn unig sydd wedi'i gynnwys yn eich cais, dewiswch o'r allbynnau/deilliannau Cyfalaf yn unig.<br><br>*Os ydych chi'n gwneud cais am gyllid Refeniw, mae 'Cyfleoedd gwirfoddoli wedi'u creu o ganlyniad uniongyrchol i gefnogaeth' yn* ***ddeilliant gorfodol.*** Bydden ni'n disgwyl cynnydd yn nifer y bobl sy'n gwirfoddoli i'ch mudiad o ganlyniad i'r prosiect. Gallai hyn olygu gwirfoddoli i gefnogi gweithgaredd neu'n fwy ffurfiol fel ymddiriedolwr neu aelod bwrdd, er enghraifft.<br><br>Byddwn ni'n gofyn i chi am dystiolaeth i gefnogi darpariaeth y deilliannau. Felly, mae angen ichi ddweud sut rydych chi'n bwriadu casglu tystiolaeth.<br><br>Er enghraifft, cofrestri gweithgaredd, ffurflenni cofrestru gwirfoddolwyr, taflenni amser gwirfoddolwyr, lluniau o waith cyfalaf. |
| **Meini Prawf Asesu 5**<br><br>**Cynllun Corfforaethol Cyngor Rhondda Cynon Taf** | Rhaid i brosiectau gael eu cyflawni yn ardal Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf a dylen nhw gyfrannu at un, neu ragor, o’r amcanion a nodir yng Nghynllun Corfforaethol Rhondda Cynon Taf 2024-2030; Gweithio gyda'n Cymunedau. Dyma nhw:<br><br>*1.* **POBL A CHYMUNEDAU** - cefnogi a grymuso trigolion a chymunedau Rhondda Cynon Taf i fyw bywydau diogel, iach a boddhaus.<br>*2.* **GWAITH A BUSNES** - helpu i gryfhau a thyfu economi Rhondda Cynon Taf.<br>*3.* **BYD NATUR A'R AMGYLCHEDD** - RhCT gwyrdd a glân sy'n gwella ac yn gwarchod yr amgylchedd a byd natur.<br>4. **DIWYLLIANT A THREFTADAETH** - Cydnabod a dathlu gorffennol, presennol a dyfodol RhCT.<br><br>Cynllun Corfforaethol y Cyngor \| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)<br><br>Rhaid i chi ddisgrifio sut mae eich prosiect yn cyfrannu'n gadarnhaol at Gynllun Corfforaethol y Cyngor. |
| **Meini Prawf** | Dylech chi adolygu'r blaenoriaethau yn 'Hinsawdd Ystyriol' |

| | |
|---|---|
| **Asesu 6**<br><br>**Newid yn yr Hinsawdd** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf: Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd 2022-25 a dweud wrthon ni sut y bydd eich sefydliad a'ch prosiect yn cyfrannu'n gadarnhaol at newid yn yr hinsawdd a lleihau carbon e.e. cynyddu effeithlonrwydd ynni, sicrhau cyflenwad di-blastig ac ati.<br><br>Dywedwch beth rydych chi'n ei wneud yn ymarferol i leihau effeithiau negyddol o ran yr hinsawdd a chynyddu effeithiau cadarnhaol ar yr hinsawdd.<br><br>Strategaeth Mynd i'r afael â Newid yn yr Hinsawdd yn RhCT 2022 - 2025) "Hinsawdd Ystyriol" RhCT |
| **Meini Prawf Asesu 7**<br><br>**Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | Dylech ddweud sut y bydd eich prosiect yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan gyfeirio'n benodol at hygyrchedd. E.e. darparu fersiynau *hawdd i'w darllen*, iaith arwyddion, darpariaeth toiledau/mannau newid hygyrch, rhwyddineb mynediad ac allanfa i bobl ag anableddau. |
| **Meini Prawf Asesu 8**<br><br>**Y Gymraeg** | Dylech chi nodi sut y bydd eich prosiect yn croesawu cyfranogwyr drwy'r Gymraeg, e.e. croesawu'r rheiny sy'n cymryd rhan trwy gyfrwng y Gymraeg, darparu arwyddion dwyieithog, bod â staff sy'n medru'r Gymraeg ar y safle; sicrhau bod cyhoeddiadau yn ddwyieithog, cynnal gweithgareddau yn y Gymraeg, ac ati. |
| **Meini Prawf Asesu 9**<br><br>**Hanes Profedig** | Rhaid i ni fod yn hyderus y bydd unrhyw grantiau a gaiff eu dyfarnu yn cael eu gwario, eu darparu a'u cefnogi gan dystiolaeth yn brydlon ac yn gywir.<br><br>Dylech chi roi gwybod am brofiad blaenorol o gyflwyno prosiectau a gaiff eu darparu gan grant yn llwyddiannus, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth wedi'i gefnogi gan Grant Cymunedol Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU. |
| **Meini Prawf Asesu 10**<br>**Cynaliadwyedd, Strategaeth Ymadael ac Etifeddiaeth** | Mae'n bwysig bod effaith eich prosiect yn mynd y tu hwnt i oes y cyllid.<br><br>Dylech ddangos sut y bydd y gymuned yn elwa o'r gweithgaredd/prosiect/datblygiad. Dylech ddisgrifio sut mae'ch sefydliad yn bwriadu parhau â'r datblygiad neu weithgareddau/prosiect am o leiaf 12 mis ar ôl mis Mawrth 2026.<br><br>Dylech nodi strategaeth ymadael glir a ddylai gynnwys sicrwydd cyllid ar gyfer parhad a/neu gynllun cau. |
| **Meini Prawf** | Yn yr adran yma, rhaid i chi ddarparu crynodeb o gostau ar |

| | |
|---|---|
| **Asesu Costau'r prosiect** **11** | gyfer pob blwyddyn ariannol.<br><br>Rhaid i'r cynllun ddangos gwerth am arian.<br><br>Caniateir gwariant cyfalaf a refeniw.<br><br>Mae **gwariant cyfalaf** yn ymwneud â gwariant o natur hirdymor, (mae gan y gwariant werth dros nifer o flynyddoedd), lle caiff asedau eu prynu, eu hadeiladu neu eu gwella.<br><br>3 dyfynbris neu bris ysgrifenedig a geisir gan gyflenwyr nwyddau, gwaith a / neu wasanaethau perthnasol £2,500 - £24,999.<br><br>Contractau gwerth £25,000 neu fwy, mae angen tystiolaeth proses dendro ffurfiol.<br><br>Mae **gwariant refeniw** fel arfer yn gostau gweithredu parhaus sy'n cael eu defnyddio wrth gynnal eich prosiect.<br><br>Gall cyfanswm y gost fod yn fwy na chyfanswm y grant rydych chi'n gwneud cais amdano.<br><br>Os yw hynny'n wir, bydd angen ichi nodi o ble y daw'r cyllid ychwanegol yn yr ail dabl ariannol.<br><br>Ar gyfer ceisiadau am ddyfarniadau cyfalaf canolig, mae disgwyl i sefydliadau fynd at ffynonellau ariannu eraill (os ydyn nhw'n gymwys). Er enghraifft, Cronfa Deddf Eglwys Cymru \| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf). Mae modd defnyddio Grant Cymunedol CBSRhCT Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU i ddarparu'r arian cyfatebol sydd ei angen mewn achosion o'r fath.<br><br>Ar gyfer dyfarniadau lefel canolig, mae disgwyl bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau o leiaf 10% o arian cyfatebol.<br><br>Bydd ceisiadau sy'n cynnwys arian cyfatebol yn cael sgôr uwch na'r rhai sydd ddim. Cyfeiriwch at y Meini Prawf.<br><br>Rhaid i gyfanswm costau'r prosiect fod rhwng £10,001 a £45,000.<br><br>Mae modd cynnwys uchafswm o 10% i gefnogi costau craidd sefydliadol. Fodd bynnag, ni chaiff cyfanswm y cais am grant fod yn fwy na £45,000.<br><br>Os yw'ch sefydliad wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, fyddwch chi |

| | |
|---|---|
| | ddim yn cael hawlio TAW.<br><br>Os nad yw eich sefydliad wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, yna mae TAW yn gost prosiect cymwys. |
| **Caniatâd** | Mae angen i ni wybod bod gyda chi'r caniatâd angenrheidiol ar waith i gyflawni eich prosiect. Rhaid i hyn fod ar waith cyn i chi wneud eich cais.<br><br>Er enghraifft, os ydych chi'n rhentu cyfleuster; a oes gyda chi ganiatâd gan eich landlord i gynnal y gweithgaredd neu i wneud y newidiadau arfaethedig?<br><br>Bydd raid i chi gyflwyno tystiolaeth o unrhyw ganiatâd fel atodiad gyda'ch ffurflen gais, e.e. cadarnhad ysgrifenedig gan eich landlord.<br><br>Os ydych chi'n gwneud gwaith cyfalaf, bydd angen i chi wirio a oes angen Caniatâd Cynllunio a chymeradwyaeth Rheoli Adeiladu arnoch chi oherwydd gallai'r rhain ychwanegu costau at eich cynnig.<br><br>Cliciwch ar y ddolen i wirio - Cynllunio, Eiddo a Rheoli Adeiladu \| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. |
| **Risgiau Prosiect** | Amlinellwch unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'ch prosiect.<br><br>Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael Templed Cofnod Risg i'w gwblhau bob chwarter. |
| **Awdurdodiad** | Rhaid i'r person sy'n cwblhau eich cais ac un person awdurdodedig arall o'ch sefydliad lofnodi a dyddio'r cais cyn iddo gael ei gyflwyno. |

Os oes gyda chi unrhyw ymholiadau pellach sydd heb gael eu nodi yn y canllaw yma, e-bostiwch **GrantCymunedolCFfGCBSRhCT@rctcbc.gov.uk** neu ffonio 01443 425368.